**GWEINIDOGION Y DEYRNAS UNEDIG SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG**

**195 - Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Rhywogaethau Estron Goresgynnol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020**

*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 21 Hydref 2020*

| | |
|---|---|
| **Sifftio** | |
| Yn destun gwaith sifftio yn Senedd y DU? | Nac ydynt |
| Gweithdrefn: | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Amherthnasol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Amherthnasol |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Amherthnasol |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 28 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Dim angen |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Amherthnasol |
| Gweithdrefn | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | 3 Tachwedd 2020 |

**Cefndir**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adrannau 8(1) ac 8C(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi.

**Crynodeb**

Diben y Rheoliadau hyn yw sicrhau bod y DU yn cyflawni ei rhwymedigaethau o dan Brotocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon ("y Protocol"). Mae'r Rheoliadau'n gwneud cywiriadau a diwygiadau technegol i amrywiaeth o is-ddeddfwriaeth ddomestig a deddfwriaeth uniongyrchol yr Undeb Ewropeaidd (UE) a ddargedwir i sicrhau bod y Deyrnas Unedig (DU) yn cyflawni ei rhwymedigaethau o dan y Protocol mewn perthynas â Lles Anifeiliaid, Trapiau Dal Coesau a Mewnforio Crwyn a Rhywogaethau Estron Goresgynnol.

**Datganiad gan Lywodraeth Cymru**
Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 23 Hydref 2020, ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

**Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**
Mae’r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i’r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.